# Cynllun Blynyddol Estyn
# 2025-2026

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael eu hariannu gan, awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion pob oed
- ysgolion arbennig a gynhelir
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau annibynnol arbenigol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg llywodraeth leol
- trefniadau trochi Cymraeg mewn awdurdodau lleol
- gwaith ieuenctid
- addysg gychwynnol athrawon
- Cymraeg i oedolion
- prentisiaethau
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn adrodd i Senedd Cymru ac yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Lywodraeth Cymru, Medr ac eraill
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon/cyhoeddiad hwn yn gywir adeg ei chyhoeddi/gyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r cynnwys at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW   neu drwy anfon neges e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae hwn a holl gyhoeddiadau eraill Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a)  mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae’r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu’n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cynnwys Tudalen


**Rhagair y Prif Arolygydd** .......... **1**

**Gweledigaeth hirdymor** .......... **4**

Y cyd-destun polisi ehangach .......... 5

**Ein blaenoriaethau ar gyfer 2025-2026** .......... **6**

Trefniadau arolygu newydd .......... 6

Ein strategaeth pobl .......... 6

Cydweithio ag arolygiaethau eraill .......... 6

Cyfathrebu .......... 6

Blaenoriaethau cenedlaethol .......... 6

Ein strategaeth data a digidol .......... 7

**Cyflawni ein hamcanion strategol** .......... **7**

Amcan strategol 1: Darparu atebolrwydd cyhoeddus ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru .......... 9

Amcan strategol 2: Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru a Medr .......... 20

Amcan strategol 3: Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru .......... 23

Ein hymagwedd .......... 25

**Atodiad 1: Gweithgarwch arolygu cynlluniedig 2025-2026** .......... **34**

**Atodiad 2: Gweithgarwch ymgysylltu cynllunedig 2025-2026** .......... **35**

**Atodiad 3: Arolygiadau monitro cynllunedig yn y sector annibynnol 2025-2026** .......... **36**

# Rhagair y Prif Arolygydd



Yn Estyn, mae ein nod yn syml: gwneud yn siŵr fod pob dysgwr yng Nghymru yn cael yr addysg a'r hyfforddiant gorau posibl. Rydyn ni yma 'Dros ddysgwyr, dros Gymru'. Rydym yn canolbwyntio ar welliant parhaus, cydweithio ar arloesi i gyflawni hyn.

Mae fy Nghynllun Blynyddol yn adlewyrchu'r nod hwn ac yn amlinellu ein blaenoriaethau a'n hymrwymiadau strategol ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod.

Y llynedd, cyflwynom gylch arolygu chwe blynedd newydd a diweddaru'r rhan fwyaf o'n fframweithiau arolygu. Ar gyfer ysgolion ac UCDau, mae ein hymagwedd newydd wedi symud oddi wrth arolygiadau sy'n ddigwyddiad untro, i ymweliadau arolygu mwy cydweithredol a pharhaus. Mae'r ymagwedd hon yn helpu i ddod ag arolygu a phrosesau gwerthuso a gwella'r darparwr ei hun yn nes at ei gilydd er mwyn sbarduno mwy o welliant. Cyflwynom Ymweliadau Interim (YIau), yn ogystal ag ymweliadau arolygu craidd, i roi adborth ystyrlon a chefnogi ysgolion ac UCDau i nodi cryfderau, rhannu arfer orau a sbarduno gwelliant. Rydym wedi siarad â miloedd o randdeiliaid a byddwn yn parhau i wrando ac ystyried adborth wrth i ni fireinio ein fframweithiau ar gyfer addysg gychwynnol athrawon, prentisiaethau, dysgu yn y sector cyfiawnder a meithrinfeydd nas cynhelir.


**"Ein nod yw sicrhau bod ein mewnwelediadau a'n canfyddiadau yn ddefnyddiol, yn ddifyr ac yn hygyrch i bob gweithiwr proffesiynol ym myd addysg a hyfforddiant."**

Eleni, byddwn yn parhau i sbarduno gwelliant, cydweithio a thrafodaeth trwy amlygu arfer orau trwy astudiaethau achos, rhannu canfyddiadau ein hadroddiadau thematig a chyhoeddi mewnwelediadau cynnar o'm Hadroddiad Blynyddol ym mis Hydref cyn ei gyhoeddi'n llawn ym mis Ionawr 2026. Rydym hefyd yn gwella sut rydym yn cyfathrebu. Rydym yn parhau i ddatblygu ein gwefan newydd, a lansiwyd ym mis Medi 2024, a byddwn yn chwilio am ddulliau newydd o ddatblygu cynnwys mewn ffyrdd difyr a rhyngweithiol. Byddwn yn adeiladu ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol sefydledig, yn cynnal cyfres arall o weminarau Estyn yn Fyw ac yn datblygu ein cyfres podlediadau Sgwrs a gyflwynwyd yn ddiweddar. Ein nod yw sicrhau bod ein mewnwelediadau a'n canfyddiadau yn ddefnyddiol, yn ddifyr ac yn hygyrch i bob gweithiwr proffesiynol ym myd addysg a hyfforddiant.

Yn fewnol, mae ein ffocws ar ymwreiddio'r fframweithiau arolygu newydd a gwella ein strategaeth pobl, gan gynnwys cyfleoedd dysgu a datblygu ar gyfer ein staff a'r gweithwyr proffesiynol addysg sy'n ymuno â ni fel arolygwyr allanol. Rydym hefyd yn mireinio ein hymagweddau ar sail adborth rhanddeiliaid ac yn cydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru a Medr. Yn ehangach, rydym yn arwain prosiect rhyngwladol gydag arolygiaethau partner ar ddeallusrwydd artiffisial ym myd addysg a, gyda Llywodraeth Cymru, yn adolygu sut mae deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol yn cael ei ddefnyddio mewn ysgolion yng Nghymru. Yn nes at adref, bydd ein strategaeth ddigidol yn sicrhau bod gan ein timau'r dechnoleg gywir i weithio'n effeithlon.

Mae addysg yng Nghymru yn esblygu, ac felly hefyd mae Estyn. Trwy gefnogi ysgolion a darparwyr hyfforddiant, rhannu mewnwelediadau sydd wedi'u seilio ar dystiolaeth a meithrin cydweithio, rydym yn helpu i lunio system sydd nid yn unig yn cyfoethogi bywydau, ond sydd hefyd yn cryfhau ein heconomi a'n diwylliant. Un o'r rhannau mwyaf gwerthfawr o'm rôl yw ymweld â phob math o leoliadau ledled Cymru, gan gyfarfod ag addysgwyr angerddol a dysgwyr ymgysylltiedig. Rwy'n edrych ymlaen at ymuno â mwy o arolygiadau eleni a gweld ein hymagweddau newydd ar waith.

Rydym wedi cyflawni llawer dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf wrth i ni symud i'n fframweithiau newydd ac yn datblygu rhai eraill, a hoffwn ddiolch i'm holl gydweithwyr am eu gwaith caled a'u proffesiynoldeb. Hoffwn ddiolch hefyd i'r holl ddarparwyr rydym wedi cydweithio â nhw a'r gymuned addysg ehangach am ei hymroddiad i ddysgwyr. Gadewch i ni ddal ati i ddysgu, gwella ac arloesi gyda'n gilydd.



**Owen Evans**

Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Gweledigaeth hirdymor

Estyn yw Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Mae arolygu'n chwarae rôl ganolog mewn gwella ansawdd addysg a hyfforddiant i'n plant, pobl ifanc a dysgwyr gydol oes.

Mae dysgwyr wrth wraidd ein gwaith. Caiff ein gweledigaeth a'n cenhadaeth eu llunio gan yr ymrwymiad hwn. Rydyn ni yma dros ddysgwyr, dros Gymru.

Mae ein hamcanion strategol yn amlinellu'n glir ein cyfraniad unigryw i helpu hybu rhagoriaeth yn y system ac mae ein gwerthoedd yn adlewyrchu'r diwylliant sy'n ysgogi ein gwaith. Mae adran ddiweddarach yn y cynllun hwn yn esbonio ein hamcanion strategol a sut rydym yn eu rhoi ar waith.



## Y cyd-destun polisi ehangach

Er bod Estyn yn gweithredu'n annibynnol, rydym yn cydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru a Medr yn ein rôl arolygu, cynghori a gwella.

Rydym yn cael ein dylanwadu gan ddatblygiadau polisi amrywiol ar lefelau cenedlaethol a rhanbarthol. Gall y newidiadau polisi hyn effeithio ar ein blaenoriaethau, ein fframwaith arolygu a'n hymagwedd tuag at werthuso ysgolion a darparwyr addysg. Mae rhai meysydd polisi allweddol sy'n dylanwadu ar ein gwaith wedi'u hamlinellu yn yr adran hon.

Mae Medr wedi'i sefydlu fel un endid sy'n goruchwylio'r sector addysg drydyddol. Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â Medr i atgyfnerthu ein trefniadau gwaith a'n rôl o ran arolygu addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yn unol â gweledigaeth strategol Medr. Cynllun Strategol Medr 2025-2030.

Mae gweithredu Cwricwlwm i Gymru newydd, Rhaglen Trawsnewid y system Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ac adolygu gwasanaethau cymorth gwella ysgolion Llywodraeth Cymru 2023 i gyd yn deillio o ddiwygiadau polisi sydd â'r nod o ysgogi gwelliant, gydag effeithiau sylweddol a phellgyrhaeddol.

Byddwn yn parhau i gydweithio â Llywodraeth Cymru, Medr a rhanddeiliaid eraill i sicrhau bod ein gweithgarwch arolygu yn cynorthwyo i roi'r blaenoriaethau allweddol hyn ar waith. Rydym hefyd yn ymrwymo i ysgogi newid hirdymor hefyd i gefnogi uchelgeisiau cenedlaethol allweddol fel:

- gweld nifer y bobl sy'n gallu mwynhau siarad a defnyddio'r Gymraeg yn cyrraedd miliwn erbyn 2050 Cymraeg 2050: strategaeth y Gymraeg, ynghyd â'r ymgyrch i gynyddu addysg cyfrwng Cymraeg (Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg)
- lliniaru effaith tlodi ar ddysgu a chyrhaeddiad addysgol, fel yr amlinellir yn Strategaeth Tlodi Plant Cymru
- cyflawni Cymru wrth-hiliol erbyn 2030, fel y nodir yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol
- sicrhau mai Cymru yw'r genedl fwyaf cyfeillgar i bobl LHDTC+ yn Ewrop, fel yr amlinellir yng Nghynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru

Ar ben hynny, rydym wedi ymrwymo i gyfrannu at ansawdd bywyd gwell a mwy cynaliadwy i bawb, yn unol ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

# Ein blaenoriaethau ar gyfer 2025-2026

Yn ogystal â chyflawni ein hamcanion strategol yn yr adran nesaf, mae'r camau gweithredu sydd wedi'u hamlinellu yma yn amlygu'r meysydd gwaith lle gallwn gael yr effaith fwyaf sylweddol yn y flwyddyn sydd i ddod.

### Trefniadau arolygu newydd

Byddwn yn parhau i ymgynghori ac ymgysylltu â darparwyr a rhanddeiliaid ar raddfa eang er mwyn datblygu ein strategaeth arolygu yn barhaus, gan gynnwys esblygu ein dulliau o gynnal ymweliadau interim. Y ffocws ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod fydd diweddaru trefniadau arolygu mewn addysg gychwynnol athrawon, lleoliadau nas cynhelir, prentisiaethau a dysgu yn y sector cyfiawnder.

### Ein strategaeth pobl

Arbenigedd ein pobl yn ein hased mwyaf. Bydd ein strategaeth yn canolbwyntio ar rymuso ein pobl i wneud penderfyniadau gwybodus o ansawdd uchel sydd o fudd i ddysgwyr a'n rhanddeiliaid ehangach.

### Cydweithio ag arolygiaethau eraill

Parhau â'n gwaith ag arolygiaethau eraill o wledydd cyfagos ar lefelau strategol a gweithredol, gan gynnwys arwain prosiect rhyngwladol ar ddeallusrwydd artiffisial ym myd addysg â thri phartner ledled Ewrop, gan ganolbwyntio ar sut gall arolygiaethau ddefnyddio deallusrwydd artiffisial i wella eu gwaith a'u dulliau o werthuso defnydd ysgolion o ddeallusrwydd artiffisial a'i effaith ar ddysgu. Mae hyn yn ogystal ag arwain adolygiad i ddeall sut mae deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol (Gen AI) yn cael ei ddefnyddio mewn ysgolion ledled Cymru ar hyn o bryd.

### Cyfathrebu

Gan ddefnyddio canfyddiadau ein harolwg canfyddiadau rhanddeiliaid diweddar a'n gwaith â'r sectorau amrywiol, byddwn yn parhau i sicrhau bod ein gweithgareddau'n cael yr effaith orau posibl, yn cael eu cyfathrebu'n effeithiol a'n bod yn darparu gwerth i'n rhanddeiliaid.

### Blaenoriaethau cenedlaethol

Byddwn yn parhau i fireinio ein gweithgareddau i gyd-fynd â'r blaenoriaethau cenedlaethol a bennwyd gan Lywodraeth Cymru a Medr, gan sicrhau bod ein hymdrechion arolygu yn ysgogi ac yn gwella gwelliant parhaus.

### Ein strategaeth data a digidol

Byddwn yn darparu'r dechnoleg sydd ei hangen ar ein pobl i gyflawni ein hamcanion a gwella eu bywydau gwaith, gan fanteisio i'r eithaf ar ein dysgu o ddeallusrwydd artiffisial. Yn benodol, byddwn yn gwella ein seilwaith ac yn integreiddio ein systemau; yn gwella ein system rheoli adnoddau er mwyn sicrhau ein bod yn cynllunio ac yn defnyddio ein hadnoddau'n effeithlon; ac yn manteisio i'r eithaf ar ein systemau rheoli gwybodaeth.

## Cyflawni ein hamcanion strategol

Mae ein hamcanion strategol yn canolbwyntio ar wella deilliannau i ddysgwyr yng Nghymru trwy:

- ddarparu atebolrwydd cyhoeddus ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru
- llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru
- meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru

Mae'r ffordd rydym yn meddwl am ein gwaith – **ein meddylfryd** – yn ein helpu i:

- sicrhau'r gorau i bob dysgwr
- cynnig cyfle i arweinwyr, athrawon a staff cymorth gyfrannu'n broffesiynol ac yn adeiladol
- rhannu'r hyn rydym wedi'i weld ledled Cymru i gefnogi gwelliant

# Ein Meddylfryd



### Teg a diduedd

Rydym yn annibynnol, yn wrthrychol, yn gadarn ac yn gyson ac mae ein gwerthusiadau'n onest, yn gywir ac yn gredadwy.



### Cefnogol

Mae arolygiadau bob amser yn gefnogol i welliannau sydd o fudd i ddysgwyr, yn annog arloesedd a chreadigrwydd, bwriadau da a diwygio addysgol.



### Myfyriol

Mae ein harolygiadau yn fyfyriol, yn eangfrydig, yn dderbyngar, yn feddylgar ac yn bwyllog.



### Tryloyw

Mae ein harolygiadau bob amser yn dryloyw, gan ganolbwyntio ar gyfathrebu'n uniongyrchol ac yn gryno.

Estyn

## Amcan strategol 1: Darparu atebolrwydd cyhoeddus ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru



Mae Estyn yn cynnal arolygiadau gyda'r nod o wella ansawdd addysg a hyfforddiant i bob dysgwr yng Nghymru. Mae gennym ymagwedd newydd tuag at arolygu ledled Cymru a bydd ein hadroddiadau'n manylu ar ba mor dda y mae darparwyr yn helpu dysgwyr i ddysgu. Y prif resymau dros arolygu yw:

- Gwerthuso ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant
- Nodi cryfderau a meysydd i'w gwella
- Cefnogi darparwyr ar eu taith tuag at ragoriaeth
- Rhoi gwybod i rieni, gofalwyr a'r gymuned ehangach am ansawdd yr addysg a ddarperir

Yn 2025-2026, byddwn yn parhau i ymwreiddio ein trefniadau arolygu newydd a gyflwynwyd y llynedd ar gyfer y rhan fwyaf o sectorau. Byddwn yn datblygu trefniadau arolygu newydd ar gyfer:

- addysg gychwynnol athrawon
- lleoliadau nas cynhelir
- prentisiaethau
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae manylion am ein prosesau arolygu ar gyfer 2025-2026 a thu hwnt, ein hamserlen arolygu ac adroddiadau arolygu, i'w gweld ar y dudalen arolygu ar ein gwefan.

Byddwn yn darparu datblygiad proffesiynol a hyfforddiant parhaus ar gyfer arolygwyr Estyn ac arolygwyr allanol er mwyn sicrhau eu bod wedi'u paratoi'n dda i gynnal

arolygiadau â gwerthusiadau sy'n adeiladol, yn deg ac yn canolbwyntio ar feithrin gwella er budd dysgwyr.

Caiff darparwyr eu cynorthwyo i ddeall a rhoi ein fframweithiau arolygu ar waith trwy ddarparu cyfathrebiadau, arweiniad ac adnoddau yn rheolaidd.

Mae **Atodiad 1** yn amlinellu manylion am ein gweithgarwch craidd cynlluniedig ar draws pob sector yn 2025-2026. Caiff y gweithgareddau a amlinellir yn y cynllun blynyddol hwn eu cefnogi gan raglenni gwaith cynhwysfawr. Fodd bynnag, rhaid i ni fod yn hyblyg ac addasu'r cynllun hwn wrth i amgylchiadau newid.

## Ysgolion a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion

Mae 1,449 o ysgolion a gynhelir (cynradd, uwchradd, pob oed ac arbennig) a 23 o unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) yng Nghymru. Mae gan 148 o ysgolion uwchradd a phob oed adrannau chweched dosbarth.

Bydd ysgolion a gynhelir ac UCDau yn cael **arolygiad craidd** ac **ymweliad interim** mewn cyfnod arolygu o chwe blynedd.

Ar ôl arolygiad craidd, caiff adroddiadau eu cyhoeddi ar ein gwefan 45 diwrnod gwaith ar ôl dechrau'r arolygiad. Mae hwn yn rhoi crynodeb a throsolwg o ganfyddiadau'r tîm arolygu ac yn amlygu cryfderau yn ogystal â meysydd i'w gwella. Rydym hefyd yn cyhoeddi adroddiad mwy cryno yn benodol ar gyfer rhieni a gofalwyr, ochr yn ochr â'r adroddiad arolygu llawn.

Nid yw ymweliadau interim wedi'u bwriadu i ddod i gasgliadau cyffredinol ynghylch effeithiolrwydd yr ysgol, ond byddant yn cynorthwyo arweinwyr i adolygu cynnydd ers yr arolygiad craidd diwethaf ac ystyried eu camau nesaf ar gyfer gwella. Ar ôl ymweliad interim, byddwn yn rhoi adborth i'r pennaeth ac yn cyhoeddi llythyr byr ar ein gwefan yn crynhoi canlyniad yr ymweliad. Byddwn hefyd yn rhoi rhywfaint o adborth i'r ysgol neu'r UCD ar y camau nesaf yn ei phroses wella.

Yn ogystal â darparu manylion am ein gweithgarwch arolygu cynlluniedig yn **Atodiad 1,** mae **Atodiad 2** yn amlinellu manylion am ein gweithgarwch ymweliadau interim cynlluniedig.

Yn 2025-2026, byddwn:

- yn canolbwyntio ar ymwreiddio ein trefniadau arolygu newydd a dysgu o'u rhoi ar waith, gan annog a gweithredu ar adborth ynghylch sut gellir gwella'r broses arolygu ymhellach
- yn ymestyn ein defnydd o arolygwyr cymheiriaid mewn arolygiadau, gan eu cynnwys mewn ymweliadau interim o dymor yr hydref ymlaen

## Gwasanaethau addysg llywodraeth leol a'r sectorau gwaith ieuenctid

Mae gwasanaethau addysg llywodraeth leol yn cynnwys y rhai sy'n cael eu darparu neu eu comisiynu gan awdurdodau lleol unigol, ynghyd â'r rhai sy'n cael eu darparu mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol eraill. Ar hyn o bryd, caiff gwasanaethau gwella ysgolion eu cydlynu trwy gonsortia rhanbarthol neu drwy bartneriaethau ar ran awdurdodau lleol, yn bennaf; mae'r modelau'n amrywio ledled Cymru. Bydd newidiadau i'r dirwedd gwella ysgolion yn ystod 2025-2026, gan y bydd awdurdodau lleol yn dwyn perchenogaeth o drefniadau gwella ysgolion ac yn datblygu modelau sy'n bodloni eu hanghenion lleol.

Mae 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru ac mae ein harolygwyr cyswllt awdurdodau lleol yn ymgysylltu â nhw'n rheolaidd trwy weithgareddau cyswllt parhaus.

Mae ein harolygiadau craidd yn edrych ar ystod eang o feysydd gwasanaeth a sut mae'r awdurdod lleol yn cynnig darpariaeth gydlynol i gefnogi addysg, hyfforddiant a lles plant a phobl ifanc. Rydym hefyd yn cynnal ymweliadau estynedig arolygwyr cyswllt awdurdodau lleol, sy'n rhoi gwerthusiad i'r awdurdod lleol o ddwy agwedd ar ei waith. Eu prif ddiben yw cynorthwyo'r awdurdod lleol i wella trwy amlinellu'r hyn sy'n gweithio'n dda a nodi ychydig o gwestiynau i'w hystyried ymhellach. Ni fydd unrhyw farn ddilynol ac ni fydd ymweliad estynedig yn sbarduno arolygiad.

Mae Archwilio Cymru yn ymuno â ni ar ein harolygiadau craidd o wasanaethau addysg llywodraeth leol ac, yn ystod y cyfnod arolygu chwe blynedd, byddwn yn gweithio â phob awdurdod lleol i gynnal:

- un arolygiad craidd
- dau ymweliad estynedig arolygwyr cyswllt awdurdodau lleol
- gweithdai risg a sicrwydd blynyddol, yr ydym yn cyfrannu atynt ochr yn ochr ag Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

Mae ein hymagwedd arolygu ar gyfer y sector gwaith ieuenctid wedi'i theilwra i'w anghenion unigryw. Mae gennym fodel y gellir ei gymhwyso i waith ieuenctid sy'n cael ei ddarparu gan awdurdodau lleol a, lle bo'n briodol, i sefydliadau'r sector gwirfoddol sy'n darparu gwaith ieuenctid. Yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, byddwn yn parhau i ddatblygu ein hymagweddau, gyda phwyslais ar ein gwaith gyda sefydliadau'r sector gwirfoddol.

Yn 2025-2026, byddwn:

- yn ymwreiddio ein cylch newydd o arolygu gwasanaethau addysg llywodraeth leol ac yn dysgu ohono, gyda phedwar arolygiad craidd wedi'u cynllunio ar gyfer 2025-2026
- yn parhau â'n harolygiadau o waith ieuenctid statudol awdurdodau lleol ac arolygiadau o ddarparwyr eraill gwaith ieuenctid gwirfoddol, gyda 6 wedi'u cynllunio ar gyfer 2025-2026

## Darpariaeth trochi Cymraeg mewn awdurdodau lleol

Mae awdurdodau lleol yn cael cyllideb benodol trwy grant i ddatblygu darpariaeth trochi Cymraeg. Gellir darparu hyn trwy sefydlu canolfan trochi Cymraeg neu drwy ariannu athro peripatetig i gefnogi hwyrddyfodiaid i'r iaith mewn ysgolion amrywiol. Mae mwyafrif yr awdurdodau lleol wedi sefydlu canolfannau trochi Cymraeg.

Lansiom ein trefniadau arolygu ar gyfer darpariaeth trochi Cymraeg yn 2024-2025; yn ystod 2025-2026, byddwn yn ymwreiddio'r trefniadau hyn ac yn cynnal 4 arolygiad yn y maes hwn.

## Ysgolion annibynnol

Ar hyn o bryd, mae 81 o ysgolion annibynnol cofrestredig yng Nghymru. Mae tua hanner yr ysgolion hyn wedi'u trefnu a'u dylunio'n benodol i gefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae'r rhan fwyaf o ysgolion arbenigol ADY yn canolbwyntio'n fanwl ar angen dysgu penodol, er enghraifft cyflwr ar y sbectrwm awtistig (ASC) neu anghenion cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl. Mae hanner arall yr ysgolion annibynnol yng Nghymru yn gymysgedd o ysgolion cynradd, uwchradd a phob oed. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn ysgolion cydaddysgol, er bod ychydig iawn ohonynt yn derbyn merched yn unig. Ar ben hynny, mae ychydig o'r ysgolion hyn yn ysgolion ffydd ac mae gan ychydig iawn ohonynt ddarpariaeth breswyl.

Rhaid i'r ysgolion hyn gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024 i aros ar y gofrestr.

Byddwn yn parhau i adeiladu ar yr amcanion a sefydlwyd yn 2024-2025, gan ganolbwyntio ar gryfhau ein prosesau arolygu a monitro. Bydd y fframwaith arolygu cyfredol a gyflwynwyd yn 2024 yn parhau i gefnogi ein harolygiadau craidd wrth i ni fonitro cydymffurfiaeth a chefnogi gwelliant mewn ysgolion annibynnol ledled Cymru.

Bydd pob ysgol annibynnol yn cael:

- Un arolygiad craidd fesul cylch arolygu, gan ganolbwyntio ar werthuso cydymffurfiaeth yr ysgol â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024 ac adrodd yn erbyn ein fframwaith arolygu (**Atodiad 1**).
- Un arolygiad monitro fesul cylch, er mwyn sicrhau bod ysgolion yn parhau i gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024 (**Atodiad 3**).
- Ymweliadau dilynol (hyd at dri, yn ôl y gofyn) os na fydd ysgol yn bodloni'r safonau. Mae'r ddau ymweliad cyntaf yn cynnig cefnogaeth barhaus ar gyfer gwella ac, yn yr ymweliad terfynol, caiff cydymffurfiaeth yr ysgol â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024 ei hailwerthuso.

Yn 2025-2026, byddwn:

- yn parhau i werthuso cydymffurfiaeth ysgolion â Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024
- yn olrhain effaith ein fframwaith arolygu diwygiedig, er mwyn sicrhau ei fod yn hyrwyddo diwylliant o welliant parhaus
- yn parhau i gynnig cymorth i ysgolion y mae angen iddynt wella er mwyn bodloni'r safonau, gan sicrhau bod cynlluniau gweithredu'n effeithiol ac yn cael eu rhoi ar waith
- yn parhau i roi ffocws cryf ar sicrhau bod ysgolion sy'n darparu ar gyfer disgyblion ag ADY yn bodloni anghenion penodol eu disgyblion ac yn eu cynorthwyo i wneud cynnydd
- yn darparu hyfforddiant i arolygwyr a fydd yn sicrhau eu bod wedi'u harfogi'n llawn i werthuso cydymffurfiaeth â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024 a rhoi adborth adeiladol i ysgolion; bydd hyfforddiant yn canolbwyntio ar feithrin arbenigedd mewn meysydd allweddol, fel gwerthuso darpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY a deall cymhlethdodau'r rheoliadau

### Cymraeg i oedolion

Mae'r sector Cymraeg i oedolion yn cynnwys un Ganolfan Genedlaethol ac 11 o ddarparwyr, sy'n cynnig amrywiaeth o gyrsiau Cymraeg sy'n amrywio o lefel mynediad i lefel hyfedredd, sydd ar gael wyneb-yn-wyneb ac ar-lein.

Yn ystod 2025-2026, byddwn yn dechrau ystyried goblygiadau Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru), (cynhaliwyd yr ail ddarlleniad ym mis Chwefror 2025).

Yn 2025-2026, byddwn:

- yn adrodd ar yr arolygiad gyntaf â thema gan ddefnyddio ein trefniadau arolygu newydd (tymor yr haf 2025)
- yn myfyrio ar flwyddyn gyntaf ein trefniadau arolygu newydd ac yn gwneud newidiadau'n unol â hynny (tymor yr haf 2025)
- yn cynnal arolygiad craidd arall o ddarparwyr Dysgu Cymraeg
- yn dechrau'r gwaith maes ar gyfer arolygiad blynyddol arall â thema, gan samplu darpariaeth ar draws nifer o ddarparwyr Dysgu Cymraeg

### Addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, colegau arbenigol annibynnol a phrentisiaethau

Mae Cymru'n gartref i 12 o golegau addysg bellach. Mae 13 partneriaeth ranbarthol, ynghyd ag Addysg Oedolion Cymru sy'n gweithredu'n genedlaethol, gan gynnig darpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned. Mae deg o ddarparwyr prentisiaethau. Mae wyth coleg arbenigol annibynnol yn darparu addysg a chymorth lles i ddysgwyr sydd ag ystod eang o ADY.

Yn 2025-2026, byddwn:

- yn parhau i ymwreiddio ein trefniadau arolygu newydd a gyflwynwyd y llynedd mewn colegau addysg bellach, partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned a cholegau arbenigol annibynnol, a dysgu ohonynt
- yn cwblhau'r cylch arolygu ar gyfer darparwyr prentisiaethau erbyn mis Awst 2025
- yn cydweithio â Medr a darparwyr prentisiaethau i ystyried pa fath o drefniadau arolygu neu fonitro y byddwn yn eu rhoi ar waith o fis Medi 2025 ymlaen
- yn parhau i esblygu ein trefniadau arolygu i ystyried fframwaith ansawdd Medr sy'n dod i rym o fis Awst 2026

## Meithrinfeydd nas cynhelir

Mae 527 o feithrinfeydd nas cynhelir yng Nghymru. Rydym yn arolygu pob lleoliad meithrin nad ydynt yn cael eu rheoli gan ysgolion ac sy'n cael eu hariannu i ddarparu addysg gynnar ran-amser i blant tair a phedair oed. Rydym yn cynnal yr arolygiadau hyn ar y cyd ag AGC ac rydym yn arolygu unwaith yn ystod cylch arolygu chwe blynedd. Ar ôl pob arolygiad, rydym yn cyhoeddi ein canfyddiadau mewn adroddiad ar y cyd ar ein gwefan.

Fe wnaethom gomisiynu a chyhoeddi adolygiad annibynnol i'r trefniadau arolygu ar y cyd rhwng Arolygiaeth Gofal Cymru ac Estyn yn 2024-2025. Adolygiad annibynnol o'r trefniadau arolygu ar y cyd ag Estyn wedi'i gyhoeddi – Estyn. Mae'r adolygiad yn gadarnhaol ynghylch effaith y rhaglen arolygu ar y cyd. Yn ddefnyddiol, mae hefyd yn trafod ffyrdd y gellid gwella'r ymagwedd ac yn gwneud ystod o argymhellion i'r ddwy arolygiaeth eu hystyried.

Rydym eisoes wedi cytuno ar broses gweithgarwch dilynol symlach, a gyflwynwyd ym mis Ionawr 2025, gan ddisodli'r categorïau blaenorol, sef 'Gwelliant â Ffocws' ac 'Adolygu gan Estyn yn unig' ag un categori unedig, sef: 'Gweithgarwch dilynol ar y cyd'.

Ar hyn o bryd, mae Grŵp Llywio AGC ac Estyn yn datblygu egwyddorion allweddol y trefniant arolygu newydd a'r amserlen weithredu, gan gymryd amser i sicrhau ein bod yn ystyried y goblygiadau i'r ddau sefydliad. Rydym wedi ymrwymo i'r bartneriaeth rydym wedi'i sefydlu dros y pum mlynedd diwethaf neu fwy a byddwn yn cydweithio â'n gilydd i wella ein hymagwedd mewn modd sy'n gweithio i'r ddau sefydliad.

Yn 2025-2026, byddwn:

- yn datblygu trefniadau arolygu newydd ar y cyd ar gyfer y sector o 2026 ymlaen

## Addysg Gychwynnol Athrawon

Mae ein system addysg gychwynnol athrawon (AGA) newydd yn ganlyniad diwygiadau cydgysylltiedig a chyd-ddibynnol, gan gynnwys cyflwyno ein cwricwlwm newydd, Cymraeg 2050, y system ADY, diwygio'r safonau proffesiynol a newidiadau rheoleiddio ar gyfer achredu AGA.

Ar hyn o bryd, mae chwe darparwr AGA, wedi'u hachredu gan Gyngor y Gweithlu Addysg (CGA), y mae pob un ohonynt yn gweithredu fel partneriaeth rhwng sefydliad addysg uwch (SAU) a'i ysgolion arweiniol ar gyfer AGA. Mae gan Estyn rôl hollbwysig o ran cynnal a gwella ansawdd AGA. Trwy ein harolygiadau, rydym yn rhoi cipolygon hanfodol i CGA, yn enwedig os bernir gan yw darparwr yn bodloni'r gofynion achredu. Mae CGA yn gyfrifol am achredu pob rhaglen AGA ar sail meini prawf a bennwyd gan Lywodraeth Cymru.

Yn 2025-2026, byddwn:

- yn cwblhau ein cylch arolygu ar gyfer addysg gychwynnol athrawon yn ystod tymor yr haf 2025
- yn ymgynghori â'r sector i gwblhau ein trefniadau ar gyfer arolygu addysg gychwynnol athrawon o fis Medi 2025 ymlaen
- yn parhau i gynnal digwyddiadau i randdeiliaid ar y cyd â CGA ac yn cydweithio'n agos â phartneriaethau AGA trwy eu grwpiau rhanddeiliaid eu hunain

Rydym hefyd yn parhau i ymgysylltu'n rheolaidd â CGA a Llywodraeth Cymru. Rydym yn cynorthwyo Llywodraeth Cymru â'i hadolygiad o addysg gychwynnol athrawon ac yn aelod o'r Grŵp Strategaeth AGA.

## Dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae pum carchar ac un sefydliad troseddwyr ifanc yng Nghymru. Rydym yn cydweithio ag Arolygiaeth Carchardai EF yn ystod ei harolygiadau, gan ganolbwyntio ar agweddau ar addysg, hyfforddiant a medrau gweithgarwch pwrpasol. Mae 17 o wasanaethau troseddwyr ifanc yng Nghymru ac, ar hyn o bryd, rydym yn archwilio ffyrdd i arolygu'r gofal, cymorth ac arweiniad i droseddwyr ifanc ers i ni roi'r gorau i gynnal arolygiadau ar y cyd ag Arolygiaeth Prawf EF. Hefyd, mae un cartref diogel i blant yng Nghymru, lle'r ydym yn gweithio ochr yn ochr ag Arolygiaeth Gofal Cymru i asesu'r ddarpariaeth addysg a hyfforddiant yn ystod arolygiadau.

Yn 2025-2026, byddwn:

- yn parhau â'n harolygiadau o'r cartref diogel i blant ag AGC

- yn dilyn cyfnod o ymgynghori a pheilota ein trefniadau ym mis Chwefror 2025, byddwn yn cydweithio ag Arolygiaeth Carchardai EF i gadarnhau'r trefniadau arolygu newydd i'w rhoi ar waith o fis Ebrill 2025

## Sicrhau ansawdd arolygiadau craidd ac ymweliadau interim

Rydym yn cymhwyso prosesau sicrhau ansawdd cadarn i'n holl arolygiadau. Mae'r pedair system allweddol ar gyfer sicrhau ansawdd arolygiadau fel a ganlyn:


- sicrhau ansawdd pob adroddiad arolygu, gan gynnwys safoni a dilysu gwerthusiadau, canfyddiadau a lefel y gweithgarwch dilynol, os yw'n briodol, cyn cyhoeddi a sicrhau ansawdd llythyrau sy'n cael eu cyhoeddi ar ôl ymweliadau ar gyfer ymweliadau interim
- sicrhau ansawdd sampl o arolygiadau ac ymweliadau interim trwy ymweliadau safle
- ffurflenni gwerthuso arolygwyr i gofnodi gwerthusiad o berfformiad pob arolygydd ychwanegol, arolygydd cymheiriaid, arolygydd lleyg a phartner gwella ysgolion, fel y bo'n briodol
- holiaduron ôl-arolygiad ar gyfer pennaeth darparwr i roi adborth ar agweddau ar y broses arolygu

Mae canfyddiadau pob elfen yn y system sicrhau ansawdd yn bwydo i gronfa ddata sicrhau ansawdd Estyn ac yn llywio ein prosesau hunanwerthuso blynyddol i nodi rhagor o welliannau y gallwn eu gwneud ar draws ein gwaith. Rydym hefyd yn defnyddio'r gwerthusiadau hyn i lywio blaenoriaethau dysgu a datblygiad proffesiynol ar gyfer arolygwyr. Caiff y system sicrhau ansawdd ei harchwilio'n rheolaidd, gan roi sicrwydd sylweddol yn fwyaf diweddar ym mis Chwefror 2025. Canfu'r archwiliad fod gan Estyn drefniadau effeithiol ar waith i sicrhau ansawdd arolygiadau. Ni nododd yr adolygiad unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio â'r prosesau sicrhau ansawdd.

Mae canfyddiadau'r holl weithgareddau sicrhau ansawdd hefyd yn dylanwadu ar ddyfarnu contractau ar gyfer Arolygwyr Cofrestredig, arolygwyr ychwanegol ac arolygwyr lleyg, a lleoli arolygwyr cymheiriaid a phartneriaid gwella ysgolion.

Yn 2025-2026, byddwn:

- yn gwneud gwelliannau i'n systemau data ar gyfer monitro deilliannau ansawdd i wella effeithlonrwydd
- yn cryfhau ein trefniadau i gefnogi ac annog arolygwyr lleyg, arolygwyr ychwanegol, arolygwyr lleyg a phartneriaid gwella ysgolion i lenwi agwedd hunanasesu'r ffurflen gwerthuso arolygydd, fel ffordd i wella eu harfer arolygu ymhellach
- yn diweddaru ein harweiniad ysgrifennu i adlewyrchu ein dulliau sy'n esblygu ar gyfer ysgrifennu adroddiadau arolygu, llythyrau ymweliadau interim a dogfennau eraill



## Gweithgarwch arolygu dilynol

Yn ystod arolygiad craidd, rydym yn ystyried a oes angen unrhyw gymorth pellach ar y darparwr. Rydym yn galw hyn yn 'weithgarwch dilynol'. Mewn ysgolion a gynhelir ac UCDau, mae hyn yn ofynnol gan ddeddfwriaeth ac mae dau fath o weithgarwch dilynol statudol, sef:

- mesurau arbennig
- gwelliant sylweddol

Mae mesurau arbennig a gwelliant sylweddol yn mynnu gweithgarwch monitro gan arolygwyr Estyn, a fydd yn ymweld â'r ysgol neu'r UCD i werthuso cynnydd. Ar hyn o bryd, nid ydym yn cyhoeddi manylion am weithgareddau monitro interim yn ystod gweithgarwch statudol. Mae hyn oherwydd bod yr ymweliadau hyn yn rhai datblygiadol eu natur. Byddwn yn cyhoeddi adroddiad pan fydd ysgol a gynhelir neu UCD yn cael ei thynnu o'r categori gweithgarwch dilynol neu'n cael ei symud o un categori gweithgarwch dilynol i un arall.

Mewn sectorau eraill, gallai trefniadau gweithgarwch dilynol gynnwys categorïau gweithgarwch dilynol statudol a threfniadau anstatudol ar gyfer monitro cynnydd.

Mae'r gwahanol fathau o 'weithgarwch dilynol' fesul sector i'w gweld yn ein llawlyfrau arweiniad ar y dudalen Adnoddau arweiniad arolygu ar ein gwefan.

Yn 2025-2026, byddwn:

- yn parhau i fonitro pob darparwr y mae angen gweithgarwch dilynol arnynt o ganlyniad i arolygiad craidd yn ffurfiol
- yn benodol, yn parhau i fonitro cynnydd ysgolion a gynhelir neu UCDau sy’n cael eu rhoi yn y categori Adolygu gan Estyn tan dymor y gwanwyn 2026 (categori blaenorol ‘gweithgarwch dilynol’ a ddefnyddiwyd gan Estyn hyd at fis Medi 2024)
- yn parhau i gydweithio â Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i gefnogi’r rhaglen amlasiantaeth ar gyfer ysgolion uwchradd sy’n peri pryder, gan gynnwys pob ysgol uwchradd, ysgol pob oed ac UCD sydd yn y categori mesurau arbennig
- yn parhau i ddarpariaeth cymorth arolygwyr cyswllt i awdurdodau lleol sy’n peri pryder, gan gynnwys cynnal cynadleddau gwella ac ymweliadau monitro, yn ôl y gofyn
- yn cydweithio â Llywodraeth Cymru a Medr i gytuno ar sut rydym yn cefnogi Medr pan fydd darparwr yn peri pryder dan ei fframwaith ansawdd

## Cydweithio pellach â chyrff arolygu a chyrff eraill

Yn 2025-2026, byddwn:

- yn cydweithio â QAA i rannu arbenigedd a dod â mwy o gydlyniant i’n prosesau arolygu ac adolygu ansawdd ar draws darparwyr addysg drydyddol
- yn cydweithio ag AGC ac arolygiaethau eraill i ystyried sut rydym yn datblygu’r rhaglen Arolygiadau ar y Cyd o Drefniadau Amddiffyn Plant (JICPA) yn y dyfodol
- yn parhau i gydweithio ag arolygiaethau addysg a hyfforddiant o wledydd cyfagos ar lefelau strategol a gweithredol, gan hwyluso rhannu gwybodaeth a chyfnewid gwybodaeth yn rheolaidd
- yn cymryd rhan yn weithredol yng Nghynhadledd Ryngwladol Sefydlog yr Arolygiaethau (SICI)
    - meithrin cyfnewid arferion gorau a dysgu gan arolygiaethau eraill
    - cynnal gweithdy SICI yng Nghaerdydd ym mis Ebrill 2026, gan wahodd cynrychiolwyr o arolygiaethau sy’n gweithredu yn Ewrop a thu hwnt, gan ganolbwyntio ar themâu cyfredol ym myd addysg ac arolygu
    - arwain prosiect rhyngwladol ar ddeallusrwydd artiffisial mewn addysg gyda thri phartner o bob rhan o Ewrop, gan ganolbwyntio ar sut gall arolygiaethau ddefnyddio deallusrwydd artiffisial i wella eu gwaith a’u dulliau o werthuso defnydd ysgolion o ddeallusrwydd artiffisial a’i effaith ar ddysgu
- yn cydweithio ag Ofsted i gefnogi, mewn rôl sicrhau ansawdd, ar arolygiadau prentisiaethau yn Lloegr, lle gofynnir am hynny oherwydd gwrthdaro buddiannau yn Ofsted

## Diogelu

Byddwn yn parhau'n wyliadwrus yn ein gwaith i gynnal diogelwch a lles pobl ifanc ac oedolion bregus. Bydd ein gweithgareddau parhaus yn gwerthuso pa mor effeithiol y mae darparwyr yn cyflawni eu cyfrifoldebau i ddiogelu plant a, lle bo'n briodol, oedolion bregus.

Rydym yn deall nad polisi yn unig yw diogelu; mae'n ddiwylliant y mae'n rhaid ei integreiddio ym mhob agwedd ar waith darparwr. I atgyfnerthu hyn, ym mis Medi 2024, fe wnaethom gryfhau ein hymagwedd at arolygu diogelu a byddwn yn monitro'r strategaeth newydd hon yn ofalus trwy gydol 2025-2026. Ein ffocws yw gwerthuso dyfnder ac effeithiolrwydd diwylliant diogelu ysgol, gan sicrhau ei fod wrth wraidd ein harolygiadau'n gyson.

Mae diogelu'n gyfrifoldeb parhaus, ar y cyd. Byddwn yn parhau i gynnal y safonau uchaf ac yn cydweithio'n agos â rhanddeiliaid i sicrhau bod diogelu'n parhau i fod yn elfen sylfaenol o gymuned ddysgu ddiogel ac anogol.



## Amcan strategol 2: Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru a Medr



Rydym yn darparu safbwynt cenedlaethol, cynhwysfawr ar ddarpariaeth addysg a hyfforddiant yng Nghymru, gan fanteisio ar dystiolaeth eang sy'n cael ei chasglu trwy ein harolygiadau a'n harolygiadau thematig. Mae ein rôl yn ymestyn i gymryd rhan mewn pwyllgorau strategol a gweithgorau ac rydym yn ymgysylltu â Medr, Gweinidogion Llywodraeth Cymru ac Ysgrifenyddion y Cabinet, swyddogion a rhanddeiliaid eraill i roi cyngor sydd wedi'i seilio ar dystiolaeth sy'n llywio datblygiad polisi a rheoleiddio.

Yn rhan o'n dyletswyddau statudol, rydym yn llunio adroddiad blynyddol ar safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Rydym yn bwriadu cyhoeddi crynodebau sector yn gynnar ym mis Hydref 2025, wedi'u dilyn gan yr adroddiad llawn ym mis Ionawr 2026. Mae'n debygol y bydd adroddiad eleni yn canolbwyntio ar y themâu allweddol canlynol:

- datblygu MDaPh y Dyniaethau
- effaith cynllunio ar gyfer llythrennedd ar fedrau darllen, ysgrifennu a llafaredd disgyblion
- datblygu dealltwriaeth fathemategol a chymhwyso medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm
- datblygu disgyblion yn feddylwyr annibynnol
- effaith arweinyddiaeth ar addysgu
- darparu cymorth effeithiol i ddisgyblion Sipsiwn, Roma a Theithwyr
- effeithiolrwydd y ddarpariaeth addysg ar gyfer dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal

Mae'r eitemau sydd wedi'u cynnwys yn yr adolygiadau thematig ar gyfer 2025-2026 yn adlewyrchu cylch gwaith strategol a ariennir gan Lywodraeth Cymru ac sydd wedi'i lywio gan broses ar y cyd a oedd yn cynnwys Medr.

Byddwn yn dechrau gweithio ar saith adroddiad thematig manwl sydd wedi'u cynnwys yn ein cylch gwaith ar gyfer 2025-2026, sef:

- adolygiad o faes dysgu a phrofiad – gwyddoniaeth a thechnoleg (Llywodraeth Cymru)
- cydberthnasau iach mewn ysgolion uwchradd ac UCDau (Llywodraeth Cymru)
- presenoldeb a chyfranogiad mewn addysg mewn colegau addysg bellach a dosbarthiadau chwech (Medr ar ran Gweinidogion Llywodraeth Cymru)
- adolygiad o Wasanaethau Lles Addysg (Llywodraeth Cymru)
- cymorth awdurdodau lleol i ysgolion ar reoli eu cyllidebau (Llywodraeth Cymru)
- trefniadau ar gyfer addysgu unigol i ddisgyblion sy'n cael eu haddysg heblaw yn yr ysgol ac ansawdd yr addysgu (Llywodraeth Cymru)
- ieithoedd rhyngwladol (Llywodraeth Cymru)
- deallusrwydd artiffisial (AI) cynhyrchiol mewn ysgolion a lleoliadau a gynhelir (Llywodraeth Cymru)

Byddwn yn parhau i roi cyngor parhaus yn seiliedig ar dystiolaeth o arolygiadau, gwaith ymgysylltu a gweithgarwch arall trwy gyfarfodydd â Medr a swyddogion Llywodraeth Cymru, cyfraniadau at weithgorau cenedlaethol, y Sgyrsiau Rhwydwaith Cenedlaethol, cyngor ysgrifenedig, arweiniad cyhoeddedig ac adroddiadau.

Byddwn hefyd yn darparu ymatebion ymgynghori ar faterion yn ymwneud ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru ac yn cyhoeddi ein hymatebion.

Yn ogystal, ar sail dystiolaeth sy'n cael ei chasglu o arolygiadau, gwaith ymgysylltu a gweithgarwch arall, bydd Estyn hefyd yn rhoi diweddariadau a chyngor rheolaidd ar:

- roi MDaPh y Dyniaethau ar waith
- effaith cynllunio ar gyfer llythrennedd ar fedrau darllen, ysgrifennu a llafaredd disgyblion
- effaith cynllunio ar gyfer llythrennedd ar fedrau darllen, ysgrifennu a llafaredd disgyblion
- datblygu cymhwysedd digidol dysgwyr
- datblygu dysgwyr yn feddylwyr annibynnol
- effaith arweinyddiaeth ar addysgu
- sicrhau bod disgyblion Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn cyflawni eu potensial
- arfer effeithiol o ran hybu tegwch a chynhwysiant
- dulliau o hybu presenoldeb rheolaidd ac ymddygiad cadarnhaol mewn ysgolion
- sicrhau bod arferion diogelu effeithiol ar waith

Byddwn hefyd yn rhoi cyngor i weithgorau amrywiol. Bydd hyn yn cynnwys cymorth ar gyfer yr agweddau hynny ar addysg a hyfforddiant ôl-orfodol sydd o fewn cylch gwaith Medr. Byddwn hefyd yn rhoi cymorth cyffredinol i Lywodraeth Cymru o ran addysg a

hyfforddiant yng Nghymru ac, yn benodol, ar gynigion i gau ac ad-drefnu ysgolion. Byddwn hefyd yn cynnig cymorth parhaus i ddatblygu'r Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP) diwygiedig.

Byddwn yn parhau i gydweithio â phartneriaid i sicrhau bod monitro a chymorth i ysgolion ac UCDau sy'n peri pryder yn cydweddu â'r cymorth ar gyfer gwella ysgolion a ddarperir gan sefydliadau eraill.


Byddwn yn cefnogi datblygiad parhaus Medr. Byddwn yn cydweithio â Medr a QAA (Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch) i ddatblygu arweiniad i ddarparwr ar hunanwerthuso effeithiol a chynllunio gwelliant parhaus.

O fis Medi 2025 ymlaen, byddwn hefyd yn peilota dull newydd o gael adborth demograffig gan ddysgwyr trwy ddefnyddio holiaduron cyn-arolygiad i'n helpu i fonitro tueddiadau cydraddoldeb ar draws sectorau a thros gyfnod. Caiff hyn ei ddefnyddio i ddadansoddi ar lefel genedlaethol i lywio ein gwaith thematig a'n cyngor polisi wedi'i seilio ar dystiolaeth.

Mae'r llythyr cylch gwaith llawn a anfonodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg at PAEF i'w weld yma.



## Amcan strategol 3: Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru



Mae ein gweithgareddau arolygu a thematig yn darparu sylfaen gref i ni asesu ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Trwy ddeialog broffesiynol ac argymhellion gwybodus, ein nod yw ysbrydoli a chefnogi gwelliant ar draws y system.

Mae ein grwpiau fforymau rhanddeiliaid a grwpiau cyfeirio, sy'n benodol i'r sector a rhai wedi'u seilio ar brosiectau, yn chwarae rôl allweddol mewn llunio ein gwaith. Maent yn ein galluogi i ymgysylltu'n fwy ystyrlon ar faterion penodol a chael mewnwelediadau gwerthfawr y tu hwnt i'r broses arolygu, gan gynnig safbwynt ehangach. Rydym wedi ymrwymo i feithrin mwy o amrywiaeth ymhlith y cynrychiolwyr yn ein fforymau rhanddeiliaid er mwyn sicrhau y caiff amrywiaeth fwy cynhwysol o leisiau eu clywed.

Mae arolygwyr cymheiriaid yn chwarae rôl hollbwysig mewn meithrin cyd-ddealltwriaeth a phennu disgwyliadau clir yn y sectorau addysg a hyfforddiant. Mae tua 1,000 o arolygwyr cymheiriaid yn gweithredu ar draws sectorau amrywiol, a chânt gyfle i arsylwi arferion amrywiol wrth arolygu, sy'n gwella eu medrau dadansoddol a'u gwybodaeth am y sector. Mae eu mewnwelediadau'n cyfrannu at gryfhau gallu yn eu sectorau, gan hybu system addysg sy'n hunanwella. Yn ogystal â gweithgarwch arolygu craidd, byddwn yn cynnwys arolygwyr cymheiriaid mewn ymweliadau interim ag ysgolion a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion. Caiff y dull hwn ei adolygu'n rhan o'n gwerthusiad canol cylch.

Yn 2024, fe wnaethom hyfforddi ein carfan gyntaf o arolygwyr ADY ychwanegol yn llwyddiannus, sy'n ymarferwyr profiadol sy'n rheoli darpariaeth ADY arbenigol mewn ysgolion neu'n rhoi cyngor i ysgolion ar wasanaethau ADY. Gall yr arolygwyr cymheiriaid hyn, sy'n dod o ysgolion a gynhelir ac ysgolion arbennig annibynnol, yn ogystal ag UCDau, wasanaethu'n Arolygwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol (AADYau). Yn amodol ar faint yr ysgol sy'n cael ei harolygu, bydd AADYau yn cael eu lleoli am ddiwrnod, fel arfer. Yn ogystal ag arolygu ysgolion arbennig, gall AADYau hefyd werthuso darpariaethau arbenigol mewn

ysgolion prif ffrwd sy'n darparu ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a nodwyd.

Byddwn:

- yn cydweithio â Medr a fforymau a grwpiau llywio Llywodraeth Cymru ar agweddau amrywiol ar bolisi ac arfer addysg a hyfforddiant
- yn defnyddio mewnwelediadau arolygon diweddar am safbwyntiau ac amgyffredion o Estyn ymhlith rhanddeiliaid i'n helpu â'n hymdrechion parhaus i ychwanegu gwerth i randdeiliaid a gwella effaith ein gwaith
- yn parhau i ddatblygu ein gwefan gan brofi a gwella profiad y defnyddiwr a datblygu ystod o gynnwys difyr i gyfathrebu â'n holl randdeiliaid
- yn rhoi ein rhaglen ymgysylltu â rhanddeiliaid a fforymau amrywiol ar waith, i roi gwybod i weithwyr proffesiynol, rhieni a gofalwyr am ein gwaith, gyda phwyslais cryf ar ehangu amrywiaeth lleisiau rhanddeiliaid i wella a chyfoethogi ein mentrau
- yn parhau i archwilio'r cyfleoedd y mae sianeli cyfathrebu newydd yn eu cynnig, gan gynnwys sianeli cyfryngau cymdeithasol newydd, gweminarau Estyn yn Fyw a'n cyfres podlediadau Sgwrs
- yn ymgysylltu â'n fforymau rhanddeiliaid ar draws pob sector i gael mewnwelediadau gwerthfawr a sicrhau bod ein hymagwedd yn parhau i ymateb i amgylchedd sy'n newid yn gyson
- yn parhau i gydnabod arfer effeithiol mewn arolygiadau a'i rhannu'n eang i ysbrydoli a chefnogi gwelliant ar draws y system
- yn darparu diweddariadau datblygiad proffesiynol a hyfforddiant parhaus ar gyfer ein gweithlu allanol er mwyn sicrhau eu bod wedi'u harfogi'n llawn ar gyfer arolygu
- yn gwella ein rhaglen hyfforddiant trwy ddod ag arolygwyr newydd i'n gweithlu allanol, gyda ffocws cryf ar gynyddu cyfranogiad ymarferwyr presennol fel arolygwyr cymheiriaid mewn gweithgareddau arolygu
- yn parhau â'n rhaglen datblygu arweinyddiaeth ar gyfer ymarferwyr o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig a recriwtio'r drydedd garfan o gyfranogwyr yn rhan o'n strategaeth i feithrin gallu a chynyddu amrywiaeth yn y gweithlu addysg, gan gynnwys y gweithlu arolygwyr cymheiriaid a'u cynnwys yn weithredol mewn arolygiadau

## Ein hymagwedd



Mae ein tîm yn cynnwys grŵp rheoli, staff canolog ac arolygwyr. Rydym hefyd yn hyfforddi arolygwyr ychwanegol, arolygwyr cymheiriaid (ymarferwyr cyfredol ym myd addysg a hyfforddiant), arolygwyr partneriaid gwella awdurdodau lleol, arolygwyr lleyg ac enwebeion (sy'n cynrychioli'r darparwr) i gyfrannu at dimau arolygu. Lle bo modd, rydym yn hwyluso cyfleoedd secondiad i mewn ac allan o'n sefydliad.

Mae ein Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol, sy'n cynnwys byrddau, pwyllgorau a grwpiau, gan gynnwys ein fframwaith sicrwydd, yn ein galluogi i gyflawni ein hamcanion strategol fel sefydliad effeithiol, sy'n cael ei reoli'n dda. Mae cyfarwyddwyr anweithredol ar ein Bwrdd Strategaeth a'n Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC) yn cynnig her a chymorth parhaus i'r uwch dîm rheoli o fewn y fframwaith hwn.

Mae manylion am bwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud ar gael ar ein gwefan Ynglŷn ag Estyn.

Mae A Modern Civil Service yn canolbwyntio ar foderneiddio'r gwasanaeth gyda gweledigaeth o Wasanaeth Sifil medrus, arloesol ac uchelgeisiol ar gyfer y dyfodol. Rydym wedi ymrwymo i gefnogi a datblygu ein gweithlu i feithrin twf a datblygiad parhaus, gan gynnwys gwella ein systemau i wella effeithlonrwydd. Trwy fanteisio ar ddata a'i ddadansoddi'n well, gallwn gael yr effaith orau posibl. Ar ben hynny, rydym yn archwilio ffyrdd i amrywio ein gweithlu ymhellach.

Yn unol â thargedau sero net Llywodraeth Cymru, rydym wedi ymrwymo i ymgymryd â'n gwaith mewn ffordd sy'n amgylcheddol gynaliadwy ac ymwreiddio cynaliadwyedd ar draws ein gweithrediadau. Mae ein polisi iaith Gymraeg yn sicrhau cyfathrebu dwyieithog ac yn cyd-fynd â dewisiadau iaith rhanddeiliaid.

Rydym wedi ymrwymo i gyflawni ein Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a

hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth trwy gyflawni ein hamcanion strategol, trwy dynnu sylw darparwyr at eu dyletswydd eu hunain i hybu cydraddoldeb. Mae ein hamcanion cydraddoldeb yn cwmpasu sut rydym yn ystyried cydraddoldeb wrth arolygu a sut byddwn yn sicrhau bod ein staff ein hunain a'r rhai y mae gennym gontractau â nhw yn cael cyfle cyfartal ac yn cael eu trin yn gyfartal.

### Strategaeth Pobl

Byddwn:

- yn datblygu ac yn gweithredu ein strategaeth pobl yn ystod 2025-2026, gyda phwyslais ar rymuso ein pobl i wneud penderfyniadau gwybodus o ansawdd uchel sydd o fudd i'n rhanddeiliaid
- yn parhau i fuddsoddi yn nysgu a datblygiad ein gweithlu i gefnogi ein pobl a'r sefydliad i ddatblygu ac arloesi
- yn ymgysylltu â'n staff i archwilio materion a gweithredu ar ganlyniadau Arolwg Pobl 2024

### Strategaeth data a digidol

Byddwn:

- yn parhau i weithio ar ein strategaeth data a digidol:
  - adolygu ein systemau TG i wella ein seilwaith ac integreiddio ein systemau
  - gwella ein system rheoli adnoddau er mwyn sicrhau ein bod yn cynllunio ac yn defnyddio ein hadnoddau'n effeithlon
  - manteisio i'r eithaf ar ein systemau rheoli gwybodaeth
  - parhau i beilota ein gwaith archwiliadol gan ddefnyddio deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol a, lle bo'n briodol, ei gyflwyno i'r holl staff

### Cyfrifoldeb statudol a chorfforaethol

Byddwn yn parhau i gyflawni ein hamcanion statudol a'n gweithgareddau corfforaethol allweddol, gan gynnwys cydraddoldeb ac amrywiaeth, safonau'r Gymraeg a chynaliadwyedd.

Yn dilyn ymgynghoriad staff a ofynnodd am fewnbwn ar sut gallwn addasu a gwella'r strategaeth o 2025 ymlaen, bydd Gweithgor y Gymraeg yn diweddaru ein Cynllun Strategol y Gymraeg.

Byddwn hefyd yn datblygu ein harlwy hyfforddiant Cymraeg ar gyfer staff sy'n dymuno dysgu neu wella eu medrau Cymraeg. Bydd hyn yn cynnwys cyfleoedd hyfforddiant preswyl dwys. Bydd staff yn cael cyfle i wneud cais am y cyrsiau hyn a chânt eu dewis ar sail meini prawf penodol, gan gynnwys eu hymrwymiad i gymryd rhan mewn cyrsiau

dilynol yn y dyfodol. Byddwn hefyd yn edrych ar sefydlu system fentora, gan baru dysgwyr â staff sy'n siarad Cymraeg, i'w helpu i integreiddio a defnyddio eu medrau iaith yn eu gwaith.

Caiff Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd ei dyfarnu i sefydliadau sy'n gallu dangos rheolaeth amgylcheddol effeithiol ac sy'n cymryd camau i ddeall, monitro a rheoli eu heffeithiau ar yr amgylchedd. Byddwn yn ceisio cael ein hailachredu yn y Safon yn nhymor yr haf ac yn cyhoeddi ein Hadroddiad Amgylcheddol 2025 wedi hynny.

Caiff [Cynllun Cydraddoldeb Strategol Estyn 2024-2028] ei gyhoeddi ar ein gwefan. Byddwn yn cwblhau adolygiad diwedd blwyddyn o'r cynllun ac rydym yn datblygu cynllun gweithredu i ddatblygu'r gwaith sydd ei angen i roi'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar waith.

## Ein cyllideb

Er bod pwysau chwyddiant wedi parhau i ostwng yn ystod blwyddyn ariannol 2024-2025, rydym yn ymwybodol o'r cyfyngiadau ariannol parhaus a'u heffaith ar gyllidebau'r sector cyhoeddus o hyd. Mae costau cynyddol ar draws meysydd gwahanol yn peri her o hyd ac rydym yn cydnabod y penderfyniadau anodd sy'n wynebu ein cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru. Er gwaethaf y pwysau hyn, rydym wedi'n calonogi bod gwerth ein gwaith o ran gwella deilliannau i ddysgwyr ledled Cymru yn cael ei gydnabod a'i gefnogi o hyd.

Yn ystod blwyddyn ariannol 2024-2025, cyflwynwyd ein fframwaith arolygu newydd hefyd, a oedd yn mynnu buddsoddiad sylweddol o ran paratoi a gweithredu. Wrth i ni symud i 2025-2026, bydd ein ffocws yn symud tuag at sicrhau bod y fframwaith hwn yn ymwreiddio'n effeithiol wrth wella effeithlonrwydd, darparu gwasanaethau ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan felly sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu cymorth a mewnwelediad o ansawdd uchel ar draws y sector.

Fodd bynnag, rhaid i ni wneud hynny mewn ffordd sy'n gyfrifol ac yn gynaliadwy yn ariannol, gyda'r nod o gyflawni mwy â'r adnoddau sydd ar gael i ni. Yn ei adroddiad yn 2024, sef *Improving productivity could release tens of billions for government priorities*, mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn amlygu pwysigrwydd cynyddu effeithlonrwydd i fanteisio i'r eithaf ar werth cyhoeddus, sef amcan sy'n cyd-fynd yn agos â phwyslais Llywodraeth Cymru ei hun ar fwyhau gallu, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ar draws gwasanaethau cyhoeddus (e.e. Fframwaith Cynllunio GIG Cymru 2022-2025).

Mae'r adroddiad yn amlygu pum cyfle i gyflawni arbedion, sef:

- Trawsnewid digidol
- Caffael

- Rheoli asedau
- Prosiectau mawr
- Gwallau, twyll ac osgoi trethi

Rydym yn credu mai'r ddau gyfle mwyaf i wella yn Estyn yn ystod 2025-2026 yw trawsnewid digidol a chaffael.

### Trawsnewid Digidol

Rydym eisoes wedi dechau ar ein taith trawsnewid digidol yn Estyn ac eisoes wedi trosglwyddo sawl un o'n systemau gwaddol i ddewisiadau amgen sydd wedi'u seilio ar y cwmwl. Rydym hefyd wedi dechrau archwilio sut gallai deallusrwydd artiffisial gynorthwyo ein gwaith. Yn y flwyddyn sydd i ddod, byddwn yn parhau i werthuso ein systemau ac yn archwilio a, lle bo'n briodol, yn buddsoddi mewn deallusrwydd artiffisial, awtomeiddio prosesau robotig (RPA) ac offer digidol eraill i wella ein heffeithiolrwydd a'n cynhyrchiant. Ar yr un pryd, byddwn yn parhau i fuddsoddi yn ein pobl, gan sicrhau bod ganddynt y wybodaeth a'r medrau sydd eu hangen i fanteisio ar yr offer a'r technegau cyfoes hyn yn effeithiol.

### Caffael

Mae Deddf Caffael 2023, a ddaeth i rym ar 24 Chwefror 2025), yn cyflwyno fframwaith caffael symlach a mwy tryloyw ledled y DU. Nod y ddeddfwriaeth hon yw symleiddio prosesau caffael, gan eu gwneud yn fwy hygyrch i fentrau bach a chanolig a hybu gwerth am arian mewn gwariant cyhoeddus.

Yng Nghymru, mae Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 yn pwysleisio ymhellach bwysigrwydd caffael sy'n gyfrifol yn gymdeithasol. Mae'r Ddeddf hon yn gorchymyn bod sefydliadau'r sector cyhoeddus yn ystyried lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliant yn eu gweithgareddau caffael, sy'n cyd-fynd yn agos â'n hymrwymiad i wella deilliannau i ddysgwyr ledled Cymru.

Mae Datganiad Polisi Caffael Cymru (DPCC) yn cyd-fynd â diwygiadau caffael yng Nghymru trwy hybu ymagwedd gynaliadwy, deg a chynhwysol tuag at gaffael cyhoeddus. Mae'n cefnogi'r diwygiadau caffael ehangach trwy sicrhau bod arferion yn gyson â nodau llesiant Cymru, gan ymgorffori gwerth cymdeithasol mewn contractau a meithrin arloesedd ac arferion cyfrifol ar draws caffael cyhoeddus.

Mae'r diwygiadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ni addasu ein strategaethau caffael i gydymffurfio â'r gofynion deddfwriaethol newydd. Trwy wneud hynny, rydym nid yn unig yn sicrhau cydymffurfiaeth, ond hefyd yn gwella ein heffeithlonrwydd a'n heffeithiolrwydd gweithredol. Bydd croesawu'r newidiadau hyn yn ein galluogi i ymgysylltu'n fwy effeithiol ag ystod amrywiol o gyflenwyr, gan gynnwys busnesau bach a chanolig lleol, gan feithrin arloesedd a sicrhau bod ein gwasanaethau'n darparu'r gwerth mwyaf i'r cyhoedd.

Gyda'i gilydd, mae ein buddsoddiad parhaus mewn technolegau digidol newydd neu amgen ac ymgorffori diwygiadau caffael y sector cyhoeddus yn adlewyrchu dau o'r pum maes cyfle a amlinellwyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol.

| **Blwyddyn Ariannol**<br><br>**(Ebrill i Fawrth)** | **Cyllid craidd ar gyfer costau rhedeg**<br><br>**£m** | **Dibrisiant**<br><br>**£m** | **Cyllid cyfalaf**<br><br>**£m** |
|---|---|---|---|
| 2025-2026 | £16.487 | £0.276 | £0.250 |

Yn ogystal â'r cyllid craidd hwn, yn 2025-2026, bydd Estyn yn cael £497,700 o gyllid grant ychwanegol a fydd yn talu am waith ar adolygiadau thematig ychwanegol, yn ogystal â gweithgarwch arolygu gwaith ieuenctid.

Mae ein Grŵp Rheoli Gweithrediadau a'n Grŵp Rheoli Strategol yn adolygu ac yn trafod ein perfformiad ariannol yn fisol, gan chwilio'n barhaus am gyfleoedd i wella ein heffeithlonrwydd a'n heffeithiolrwydd. Caiff goruchwyliaeth ychwanegol ei darparu drwy gydol y flwyddyn gan y Bwrdd Strategaeth a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC).

### Newidiadau o ran cyllid

Daw cyllid ar gyfer ein gwaith ôl-16 mewn addysg bellach (AB), prentisiaethau, dysgu oedolion yn y gymuned a dosbarthiadau chwech o Lywodraeth Cymru ar ran Medr ar gyfer 2025-2026. Bydd Medr yn goruchwylio gwariant cyllid ar gyfer 2025-2026 ac yn goruchwylio dyraniadau cyllid ar gyfer 2026-2027, dan gytundeb asiantaeth â LlC.

### Monitro ein perfformiad

Rydym yn llunio ein cynllun blynyddol ym mis Ebrill bob blwyddyn, ac yna'n ddiweddarach yn y flwyddyn rydym yn cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol a chyfrifon. Mae'r adroddiad blynyddol a chyfrifon yn amlinellu ein cynnydd o ran cyflawni'r cynllun ac yn cynnwys set gyflawn o gyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Yn 2025-2026, byddwn yn parhau i ddefnyddio cyfuniad o ddulliau meintiol ac ansoddol i fesur, gwerthuso ac adrodd ar ein perfformiad. Mae hyn yn cynnwys adroddiadau rheolaidd i'n Grŵp Gweithredol, ein Grŵp Arweinyddiaeth Arolygu, ein Grŵp Rheoli Strategol a'n Bwrdd Strategaeth, sy'n manylu ar gynnydd tuag at gyflawni ein hamcanion strategol a bodloni ein dangosyddion perfformiad allweddol. Ar ben hynny, caiff adroddiadau archwilio mewnol eu rhannu â'r Grŵp Gweithredol, y Grŵp Rheoli Strategol a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Rydym wedi nodi set o ddangosyddion perfformiad allweddol lefel uchel i asesu cynnydd tuag at gyflawni ein hamcanion strategol, yr ydym yn eu hadolygu'n flynyddol. Caiff y rhain eu hategu gan ystod ehangach o ddangosyddion rheoli gweithredol, yr adroddir ar lawer ohonynt yn fewnol ac yn allanol, gan gynnwys ein hadroddiad blynyddol a chyfrifon.

## Dangosyddion perfformiad allweddol:

**AS1 – Sicrhau atebolrwydd cyhoeddus i ddefnyddwyr ein gwasanaethau a chynyddu gallu o ran darparu addysg a hyfforddiant yng Nghymru**

| Dangosyddion perfformiad allweddol | Targed 2025-2026 |
|---|---|
| a) Canran yr arolygiadau a gwblhawyd a oedd yn bodloni'r gweithgarwch arolygu cynlluniedig a amlinellwyd yn ein cynllun blynyddol | 98% |
| b) Lleoli arolygwyr cymheiriaid mewn arolygiadau craidd yn unol â safonau Estyn | O leiaf 1 arolygydd cymheiriaid ym mhob arolygiad |
| c) Lleoli arolygwyr lleyg ym mhob arolygiad craidd o ysgolion ac UCDau yn unol â safonau Estyn | Un arolygydd lleyg ym mhob arolygiad ysgol ac UCD |

**AS1 / AS3 – Sicrhau bod profiad darparwyr o arolygu yn broses gadarnhaol sy'n hybu gwelliant**

| Dangosyddion perfformiad allweddol | Targed 2025-2026 |
|---|---|
| Canran y darparwyr hynny sy'n llenwi holiadur ôl-arolygiad sy'n nodi eu bodlonrwydd ar ôl arolygiad:<br>a. Bod arolygwyr wedi rhoi adborth defnyddiol yn ystod yr arolygiad trwy nodi cryfderau perthnasol a meysydd i'w gwella (Holiadur ôl-arolygiad (HOA)1 – C15) | 97% |
| b. O ran dibynadwyedd ac annibyniaeth ein barnau (HOA2 – C22) | 97% |
| c. Bod yr arolygiad wedi'u helpu i gynllunio ar gyfer gwella (HOA2 – C19) | 97% |

**AS1 / AS3 – Datblygu ein trefniadau gweithio â Medr, sydd â'r nod o hybu mwy o gydlyniant a chydweithio ar draws darpariaeth ôl-16**

| Dangosyddion perfformiad allweddol | Targed 2025-2026 |
|---|---|
| Datblygu ein trefniadau gwaith â Medr ar lefelau strategol a gweithredol a sicrhau bod Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth cyfredol yn cael ei gytuno a chyflawni gwaith a ariannwyd. | 31 Mawrth 2026 |

**AS2 / AS3 – Sicrhau bod ein digwyddiadau a'n hadnoddau i randdeiliaid yn cynyddu effaith gadarnhaol gwaith Estyn ac yn sbarduno gwelliant ar draws y sector addysg a hyfforddiant yng Nghymru**

| Dangosyddion perfformiad allweddol | Targed 2025-2026 |
|---|---|
| a) Cyfran y rhanddeiliaid sydd o'r farn bod ein digwyddiadau i randdeiliaid yn ddefnyddiol neu'n ddefnyddiol iawn<br><br>b) Cyfran y rhanddeiliaid sydd o'r farn bod cyfathrebu Estyn yn gadarnhaol<br><br>c) Cyfran y rhanddeiliaid sydd o'r farn bod ein gwaith wedi arwain at welliannau yn y modd y caiff gwasanaethau addysg a hyfforddiant a datblygiad polisi eu darparu yng Nghymru | a) 96%<br><br>b) 55%<br><br>c) 55% |
| ch) Nifer gyfunol y defnyddwyr sy'n cyrchu ein cyhoeddiadau allweddol (Adroddiad Blynyddol ac adroddiadau thematig) yn ystod y cyfnod adrodd | Targed blynyddol o 20,000 |
| d) Nifer yr edrychiadau ar ein hadnoddau amlgyfrwng ar ein sianel YouTube | Targed blynyddol o 10,000 |

| Dangosyddion perfformiad allweddol | Targed 2025-2026 |
|---|---|
| dd) Cyfradd clicio drwodd ar ein cylchlythyr bob hanner tymor i randdeiliaid allanol (caiff hwn ei ddosbarthu i fwy na 2,500 o gysylltiadau, gan amlygu penawdau a chyhoeddiadau testunol) | Cyfradd clicio drwodd: 7%<br>(2-3% yw cyfartaledd y diwydiant) |

**Ein hymagwedd – Creu a chynnal gweithlu ymgysylltiedig a medrus**

| Dangosyddion perfformiad allweddol | Targed 2025-2026 |
|---|---|
| Canran gadarnhaol yn yr Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil blynyddol | Ar gyfer yr arolwg diweddaraf: |
| a) sgôr mynegai ymgysylltiad cyflogeion (EEI) | Yn y chwartel uchaf |
| b) sgôr y thema dysgu a datblygiad | O leiaf y sgôr meincnod canolrifol |

# Atodiad 1: Gweithgarwch arolygu cynlluniedig 2025-2026

**Gweithgarwch arolygu cynlluniedig gan Arolygwyr Ei Fawrhydi (AEF) ac arolygwyr annibynnol 2025-2026 (blwyddyn ariannol)**

**Nifer gynlluniedig yr arolygiadau sy'n arwain at adroddiadau[1]**

| Uned arolygu | Nifer y darparwyr (2025) | Haf 2025[3] | Hydref 2025 | Gwanwyn 2026 |
|---|---|---|---|---|
| Lleoliadau meithrin nas cynhelir [2] | 527 | 30 | 30 | 30 |
| Ysgolion cynradd | 1205 | 64 | 68 | 70 |
| Ysgolion uwchradd | 174 | 6 | 14 | 13 |
| Ysgolion pob oed | 31 | 1 | 2 | 2 |
| Ysgolion arbennig a gynhelir | 39 | 2 | 2 | 2 |
| Unedau cyfeirio disgyblion | 23 | 2 | 1 | 2 |
| Ysgolion arbenigol ADY annibynnol | * | 1 | 4 | 3 |
| Ysgolion uwchradd annibynnol | * | 0 | 0 | 0 |
| Ysgolion cynradd annibynnol | * | 1 | 1 | 0 |
| Ysgolion pob oed annibynnol | * | 1 | 0 | 3 |
| Colegau arbenigol annibynnol | 8 | 1 | 1 | 0 |
| Gwasanaethau addysg llywodraeth leol | 22 | 1 | 1 | 2 |
| Arolygiadau gwaith ieuenctid | - | 1 | 1 | 1 |
| Sefydliadau addysg bellach | 12 | 0 | 0 | 2 |
| Partneriaethau addysg gychwynnol athrawon (AGA) | 6 | 0 | 0 | 0 |
| Darparwyr prentisiaethau | 10 | 1 | 0 | 0 |
| Partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned (DOG) (gan gynnwys Addysg Oedolion Cymru) | 14 | 1 | 1 | 1 |
| Cymraeg i Oedolion (CiO) – 11 o ddarparwyr Dysgu Cymraeg ac un Ganolfan Genedlaethol | 12 | 0 | 1 | 0 |
| Trochi Cymraeg | | 1 | 1 | 1 |
| **Cyfanswm** | | **114** | **128** | **132** |
| **CYFANSWM CYFFREDINOL** | | | | |

(1) Yn seiliedig ar wybodaeth ar 31/03/2025.

(2) Caiff yr arolygiadau hyn eu cyflawni ar y cyd ag AGC. (3) Mae tymor y gwanwyn 2025 yn parhau tan 13 Ebrill 2025.

* Cyfrifir cyfanswm nifer yr ysgolion annibynnol yng Nghymru fel 81.

# Atodiad 2: Gweithgarwch ymgysylltu cynllunedig 2025-2026

**Gweithgarwch ymgysylltu cynlluniedig gan Arolygwyr Ei Fawrhydi (AEF) ac arolygwyr annibynnol 2025-2026 (blwyddyn ariannol)**

| | **Nifer gynlluniedig yr ymweliadau interim (Blynyddol)** [1] | | |
|---|---|---|---|
| **Uned arolygu** | **Haf 2025** | **Hydref 2025** | **Gwanwyn 2026** |
| Lleoliadau meithrin nas cynhelir | 0 | 0 | 0 |
| Ysgolion cynradd | 48 | 73 | 61 |
| Ysgolion uwchradd | 7 | 14 | 9 |
| Ysgolion pob oed | 1 | 2 | 0 |
| Ysgolion arbennig a gynhelir | 1 | 2 | 2 |
| Unedau cyfeirio disgyblion | 1 | 2 | 2 |
| **Cyfanswm** | **58** | **93** | **74** |
| **CYFANSWM CYFFREDINOL** | | | **225** |

(1) Yn seiliedig ar wybodaeth ar 31/03/2025.



# Atodiad 3: Arolygiadau monitro cynllunedig yn y sector annibynnol 2025-2026

**Arolygiadau monitro cynlluniedig yn y sector annibynnol gan Arolygwyr Ei Fawrhydi (AEF) ac arolygwyr annibynnol 2025-2026 (blwyddyn ariannol)**

| | Nifer gynlluniedig yr arolygiadau monitro (Blynyddol) [1] | | |
|---|---|---|---|
| **Uned arolygu** | **Haf 2025** | **Hydref 2025** | **Gwanwyn 2026** |
| Ysgolion arbenigol ADY annibynnol | 3 | 2 | 3 |
| Ysgolion uwchradd annibynnol | 0 | 2 | 0 |
| Ysgolion cynradd annibynnol | 1 | 1 | 1 |
| Ysgolion pob oed annibynnol | 1 | 0 | 1 |
| **Cyfanswm** | **5** | **5** | **5** |

(1) Yn seiliedig ar wybodaeth ar 31/03/2025.

**Rydym yn croesawu adborth a sylwadau am y cynllun blynyddol hwn, y gellir eu hanfon atom drwy'r e-bost i adborth@estyn.llyw.cymru**

**Caiff y cynllun blynyddol hwn ei gyflwyno at sylw Prif Weinidog Senedd Cymru a'i gymeradwyo ganddi.**